Gwneud Datganiad Personol Dioddefwr

Eich cyfle i egluro sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch

Datganiad Personol Dioddefwr.
Mae gan bob trosedd ddioddefwr.
Mae pob dioddefwr yn
haeddu llais.

SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL

Cynnwys

Y daflen hon 01
Datganiad Personol Dioddefwr 03
Sut y caiff eich Datganiad Personol Dioddefwr ei ddefnyddio 07
Gwneud Datganiad Personol Dioddefwr a'i ddiweddaru 08
Cysylltu â'r heddlu 11
Rhagor o wybodaeth 13

Y daflen hon

Pan fyddwch yn dioddef trosedd, gall effeithio arnoch mewn sawl ffordd wahanol – er enghraifft yn emosiynol, yn ariannol neu'n gorfforol.

Drwy wneud Datganiad Personol Dioddefwr gallwch gofnodi eich teimladau. Bydd yn helpu asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n gysylltiedig â'ch achos (fel yr heddlu, yr erlynydd neu'r llysoedd) i ddeall yr effaith y mae'r drosedd wedi'i chael arnoch chi a'ch teulu. Fel hyn gallwn sicrhau eich bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnoch.

Beth mae'r daflen hon yn ei wneud

Mae'r daflen hon yn egluro popeth y mae angen i chi ei wybod am y Datganiad Personol Dioddefwr - beth ydyw, sut mae'n gweithio a beth fyddwn yn ei wneud â'r wybodaeth a roddwch i ni.

Cewch atebion i rai cwestiynau cyffredin a ofynnir a chanllawiau ar sut i wneud Datganiad Personol Dioddefwr. Yn y cefn, ceir gwybodaeth gyswllt rhag ofn y bydd gennych unrhyw gwestiynau neu y bydd angen unrhyw gymorth ychwanegol arnoch.

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod y mwyafrif o'r rhai hynny a wnaeth Ddatganiad Personol Dioddefwr yn teimlo ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar eu profiad o'r System Cyfiawnder Troseddol.

Datganiad Personol Dioddefwr

Beth yw Datganiad Personol Dioddefwr?

Datganiad yw'r Datganiad Personol Dioddefwr y gallwch ei roi i'r heddlu os ydych wedi bod yn ddioddefwr trosedd. Mae'n wahanol i'r datganiad tyst y byddwch eisoes wedi'i roi efallai am y drosedd, sy'n adroddiad ysgrifenedig neu'n un wedi ei recordio ar fideo o'r hyn a ddigwyddodd. Mae'r Datganiad Personol Dioddefwr yn gofnod o'r effaith bersonol a gafodd y drosedd arnoch chi a'ch teulu. Mae'n rhoi cyfle i chi egluro, yn eich geiriau eich hun, sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch - boed hynny'n gorfforol, yn emosiynol, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall.

Pam ei fod yn bwysig?

Mae eich Datganiad Personol Dioddefwr yn bwysig gan y bydd yn helpu pawb sy'n gysylltiedig â'r achos - yr heddlu, yr erlynydd, a'r llys - i ddeall yr effaith y mae'r drosedd wedi ei chael ar eich bywyd. Gall hyn eu helpu i wneud penderfyniadau pwysig am yr achos (gweler 'A fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r achos' ar dudalen 5).

Bydd y Datganiad Personol Dioddefwr yn ffurfio rhan o bapurau'r achos, felly os bydd eich achos yn mynd i'r llys, caiff ei anfon at gyfreithiwr y diffynnydd (gweler 'Sut y caiff eich Datganiad Personol Dioddefwr ei ddefnyddio' ar dudalen 7).

Beth y gallaf ei ddweud yn fy Natganiad Personol Dioddefwr?

Gallwch ddweud beth bynnag yr hoffech ei ddweud am sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch. Er enghraifft, efallai y byddwch am grybwyll:

- unrhyw anaf corfforol neu seicolegol a ddioddefwyd gennych
- os ydych yn teimlo'n agored i niwed neu wedi eich bygylu
- os nad ydych yn teimlo'n ddiogel mwyach
- yr effaith ar eich teulu
- sut mae ansawdd eich bywyd wedi newid o ddydd i ddydd
- os ydych yn poeni y caiff y troseddwr honedig fechnïaeth
- os ydych yn teimlo i'r drosedd gael ei hysgogi gan hil neu bod eich ffydd, eich rhywioldeb neu'ch anabledd wedi chwarae rhan yn y drosedd
- os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, er enghraifft gan eich bod yn ymddangos fel tyst yn y treial
- os ydych yn bwriadu hawlio iawndal gan y troseddwr honedig am unrhyw anaf, colled neu ddifrod a ddioddefwyd gennych.

Fodd bynnag, **ni ddylai** eich Datganiad Personol Dioddefwr gynnwys eich teimladau na'ch barn ar sut y dylid cosbi'r troseddwr honedig - penderfyniad yr ynad neu'r barnwr fydd hyn.

A fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r achos?

Mae eich Datganiad Personol Dioddefwr yn bwysig a gallai wneud gwahaniaeth i'r achos. Bydd yn helpu'r asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n gysylltiedig â'ch achos (fel yr heddlu, yr erlynydd neu'r llysoedd) i ddeall sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch. Gall hyn, yn ei dro, lywio penderfyniadau ar ba un a ddylid cyhuddo troseddwr honedig, neu roi mechnïaeth i ddiffynnydd.

A all fy Natganiad Personol Dioddefwr ddylanwadu ar y ddedfryd?

Penderfyniad y llys fydd y dedfrydu. Fodd bynnag, bydd y barnwr neu'r ynad yn ystyried sut y mae'r drosedd wedi effeithio ar eich bywyd wrth ddedfrydu - ynghyd â'r holl dystiolaeth arall yn yr achos a'r canllawiau dedfrydu perthnasol. Ni chaiff eich barn chi (na barn eich perthnasau agos) ar beth ddylai'r ddedfryd fod ei hystyried.

Sut y caiff eich Datganiad Personol Dioddefwr ei ddefnyddio

Beth sy'n digwydd i'm Datganiad Personol Dioddefwr unwaith y byddaf wedi ei wneud?

Ar ôl i chi wneud eich datganiad, daw yn rhan o bapurau'r achos. (Fodd bynnag, ni chaiff gwybodaeth benodol ei chynnwys e.e. eich manylion cyswllt.)

Mae hyn yn golygu y caiff eich datganiad ei weld gan bawb sy'n gysylltiedig â'r achos, gan gynnwys y diffynnydd a'i gyfreithiwr/cyfreithwyr, yr heddlu, yr erlyniad, a'r barnwr neu'r ynad os aiff yr achos i'r llys.

Fodd bynnag, dim ond os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog yn y gwrandawiad neu'n cael ei ddyfarnu'n euog gan y llys y caiff eich Datganiad Personol Dioddefwr ei ystyried gan y llys.

A allaf gael fy holi am fy Natganiad Personol Dioddefwr?

Gallwch. Gallai'r llys neu'r amddiffyniad holi cwestiynau i chi am gynnwys eich Datganiad Personol Dioddefwr i ofyn am eglurhad neu i herio pwyntiau penodol.

Gwneud Datganiad Personol Dioddefwr a'i ddiweddaru

Pryd y byddaf yn gwneud Datganiad Personol Dioddefwr?

Fel arfer bydd yr heddlu yn gofyn i chi a ydych am wneud Datganiad Personol Dioddefwr ar ôl iddynt gymryd eich datganiad tyst. Gallant eich helpu i wneud Datganiad Personol Dioddefwr neu roi'r cymorth sydd ei angen arnoch i wneud eich datganiad.

A oes rhaid i mi wneud Datganiad Personol Dioddefwr?

Nid oes rhaid i chi wneud Datganiad Personol Dioddefwr os nad ydych am wneud hynny - eich penderfyniad chi ydyw. Gall trosedd effeithio ar bobl mewn ffyrdd gwahanol, ac efallai y byddwch am fynegi sut rydych yn teimlo mewn ffordd wahanol.

Os byddwch yn penderfynu peidio â gwneud Datganiad Personol Dioddefwr, ni fydd yn effeithio ar yr ymchwiliad i'r achos. Ni fydd unrhyw un yn dod i gasgliad nac yn cymryd yn ganiataol, er enghraifft, nad effeithiodd y drosedd arnoch.

Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil yn dangos bod y mwyafrif o bobl a wnaeth Ddatganiad Personol Dioddefwr yn teimlo ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar eu profiad o'r System Cyfiawnder Troseddol.

Beth sy'n digwydd os byddaf yn newid fy meddwl?

Os byddwch yn dewis peidio â gwneud Datganiad Personol Dioddefwr ar unwaith, peidiwch â phoeni. Gallwch bob amser ofyn am gael gwneud un yn nes ymlaen. Os byddwch yn penderfynu gwneud Datganiad Personol Dioddefwr yn ddiweddarach, cysylltwch â swyddog yr heddlu sy'n gyfrifol am eich achos (dangosir hyn ar dudalen 11) a rhowch wybod iddynt eich bod am wneud Datganiad Personol Dioddefwr. Gallwch ofyn i'r swyddog ddod yn ôl i'ch gweld chi a'ch helpu i wneud Datganiad Personol Dioddefwr.

Os bydd eich achos yn mynd i dreial (sy'n digwydd pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddi-euog), bydd yr Uned Gofal Tystion yn gofyn a ydych wedi cael y cyfle i wneud Datganiad Personol Dioddefwr ac yn rhoi'r cyfle i chi wneud un neu ei ddiweddaru.

Gellir gwneud Datganiad Personol Dioddefwr neu ei ddiweddaru, ar unrhyw adeg cyn y caiff y troseddwr honedig ei ddedfrydu gan y llys. Felly peidiwch ag oedi cyn gwneud Datganiad Personol Dioddefwr. Os bydd diffynnydd yn pledio'n euog yn y gwrandawiad cyntaf, efallai y cânt eu dedfrydu cyn i chi gael cyfle i wneud Datganiad Personol Dioddefwr.

Sut y gallaf wneud fy Natganiad Personol Dioddefwr?

Os gwnewch eich Datganiad Personol Dioddefwr cyntaf ar yr un pryd ag y gwnewch eich datganiad tyst, caiff y Datganiad Personol Dioddefwr ei gymryd yn yr un ffordd - yn ysgrifenedig, drwy fideo neu drwy ddehonglydd. Gall swyddog yr heddlu eich helpu i wneud hyn.

A allaf dynnu fy Natganiad Personol Dioddefwr yn ôl neu ei newid?

Na allwch. Unwaith y byddwch wedi gwneud Datganiad Personol Dioddefwr, ni allwch ei dynnu'n ôl na'i newid. Fodd bynnag, gallwch wneud datganiad ychwanegol sy'n egluro neu'n diwygio eich datganiad gwreiddiol ar unrhyw adeg cyn y treial. Caiff y datganiad ychwanegol ei gyflwyno ynghyd â'ch Datganiad Personol Dioddefwr gwreiddiol.

Gallwch hefyd wneud ail Ddatganiad Personol Dioddefwr os ydych am ddisgrifio effaith lawn y drosedd nad oedd, o bosibl, wedi bod yn amlwg yn gynt - er enghraifft os yw'r effeithiau tymor hwy ond yn dod yn amlwg yn awr, os oes mwy (neu lai) o golled ariannol, neu os ydych yn poeni y caiff y troseddwr honedig fechnïaeth.

Fel arfer caiff ail Ddatganiad Personol Dioddefwr ei gymryd yn ysgrifenedig.

Cysylltu â'r heddlu

Dyma gyswllt yr heddlu ar gyfer unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'ch Datganiad Personol Dioddefwr. Bydd y swyddog sy'n delio â'ch datganiad yn llenwi hwn. Cadwch y manylion yn ddiogel.

Cyswllt cychwynnol â'r heddlu

Enw swyddog yr heddlu:

Rhif ffôn gorsaf yr heddlu:

Swyddog yr heddlu sy'n delio â'r achos (os yw'n wahanol i'r uchod)

Enw swyddog yr heddlu:

Rheng swyddog yr heddlu:

Rhif ffôn swyddog yr heddlu:

Manylion yr achos troseddol

Rhif cyfeirnod yr achos troseddol:

Rhif ffôn y ddesg droseddau:

Nodiadau eraill

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych ragor o gwestiynau am y Datganiad Personol Dioddefwr, cysylltwch â chyswllt yr heddlu a ddangosir ar dudalen 11 neu siaradwch ag unrhyw aelod o dîm eich heddlu lleol. Fel dioddefwr trosedd, bydd swyddogion yr heddlu yn fwy na pharod i roi cyngor i chi a'ch cyfeirio at y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnoch.

Gallwch hefyd siarad â Cymorth i Ddioddefwyr, y mae eu gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi'n arbennig i roi cymorth ymarferol a chefnogaeth emosiynol i ddioddefwyr trosedd a thystion yn y llys. Rhestrir eich Cynllun Cymorth i Ddioddefwyr lleol yn y llyfr ffôn lleol, neu ffoniwch y Llinell Gymorth genedlaethol i Ddioddefwyr ar **0845 30 30 900**.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Datganiad Personol Dioddefwr ar wefan y System Cyfiawnder Troseddol yn www.cjsonline.gov.uk/victim/coming_forward/victim_personal_statement

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn sawl iaith wahanol. Gofynnwch i'r heddlu os hoffech gael fersiwn wahanol.

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa
Diwygio Cyfiawnder Troseddol
ym mis Hydref 2009.

Cod cynnyrch: VPS/LEAFLET/09(W)
Cyfeirnod: 293621
℗Hawlfraint y Goron 2009

SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL